Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## London Women's Clinic, Caerdydd

## Dyddiad y gweithgarwch: 17 Ionawr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mawrth 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-269-9

(h) Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o London Women's Clinic, Caerdydd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae London Women's Clinic yn ddarparwr gwasanaethau ffrwythlondeb cleifion dydd sy'n oedolion cofrestredig, gan gynnwys Ffrwythloni In Vitro (IVF) ac mae wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA). Mae'r prif labordy a'r cyfleuster clinig wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, gyda chlinig arall ar gael yn Abertawe a chanolfannau rhanbarthol ledled Lloegr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Unigolyn Cyfrifol a Rheolwr y Clinig ar 17 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, ac yn unol â chyngor yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA) ataliwyd triniaeth ffrwythlondeb dros dro ar 15 Ebrill 2020. Ar 1 Mai 2020 cyhoeddodd HFEA y gallai clinigau ffrwythlondeb ailgyflwyno triniaeth ffrwythlondeb os oeddent yn cael eu cynnal mewn ffordd a oedd yn lleihau lledaeniad y feirws i gleifion a staff y clinig gymaint â phosibl.

Yn unol â chod ymddygiad HFEA, mae gan y clinig yng Nghaerdydd unigolyn cyfrifol wedi'i benodi sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff gweithgareddau trwyddedig eu cynnal yn unol â fframweithiau rheoliadol a Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r unigolyn cyfrifol yn feddyg ymgynghorol sy'n gweithio ar y safle yng nghlinig Caerdydd.

Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol dystiolaeth a sicrwydd ar lafar inni fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd a'r gweithdrefnau gweithredu safonol mewn ymateb i'r pandemig i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff.

Cawsom gyfres o weithdrefnau gweithredu safonol, polisïau a llwybrau cynhwysfawr a chyfredol, gan gynnwys:

- Polisi Cymhwysedd Ail-sefydlu wedi'i Addasu COVID
- Gweithdrefn Gweithredu Safonol Atal a Rheoli Heintiau
- Llwybr profi cleifion
- Polisi iechyd a llesiant
- Gweithdrefn Gweithredu Safonol Asesiad Risg
- Paratoi ar gyfer pandemig yn y dyfodol

Mae adolygiad o'r Polisi Cymhwysedd Ail-sefydlu wedi'i Addasu COVID-19 dyddiedig Mai 2020 yn dangos fod hyn yn adnodd rheoli a ddefnyddir i ddogfennu'r broses a ddefnyddiwyd i roi gwybod i staff am y gweithdrefnau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig. Mae hefyd yn

rhoi'r sgiliau iddynt gyflawni tasgau gan gynnwys gwisgo a diosg, defnyddio a gwaredu cyfarpar diogelu personol. Yn ogystal, mae'r polisi hwn yn rhoi canllawiau i staff am ffitio a defnyddio masgiau ac anadlyddion.

Cawsom daflen wybodaeth i gleifion sy'n rhoi gwybod i gleifion fod y clinig bellach yn gwasgaru apwyntiadau er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol. Cawsom wybod bod ymgyngoriadau a sesiynau cwnsela dros y ffôn neu drwy ddolen fideo er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio a throsglwyddo'r feirws.

Cawsom dystiolaeth wedi'i dogfennu o godau ymddygiad COVID-19 ar gyfer staff a chleifion gyda ffocws ar iechyd, diogelwch a llesiant mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r codau ymddygiad yn darparu canllawiau ar y rhagofalon y mae'n rhaid i unigolion eu cymryd i sicrhau eu diogelwch eu hunain a phobl eraill. Mae'r cod ymddygiad i staff yn darparu gofynion y clinig i unigolion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, rhyngweithio â chydweithwyr, hylendid, cyfarpar diogelu personol a'r weithdrefn i'w chymryd os byddant yn dangos symptomau COVID-19. Mae'r cod ymddygiad i gleifion yn darparu canllawiau clir ar sgrinio COVID-19, presenoldeb mewn apwyntiadau, hylendid dwylo a gorchuddion wyneb.

Cawsom wybod bod cleifion, partneriaid a rhoddwyr yn cael eu sgrinio ar gyfer COVID-19 cyn unrhyw driniaeth. Mae cleifion sy'n cael triniaethau tynnu öosyt/sberm a throsglwyddo embryo[1] yn cael prawf swab RT-PCR COVID-19[2] cyn trefnu'r weithdrefn. Nod sgrinio a phrofion swab yw nodi presenoldeb y feirws, atal trosglwyddo'r feirws a diogelu iechyd a diogelwch y rhai sy'n cael eu cyflogi yn y clinig a'r rhai sy'n ymweld â'r clinig. Yn ogystal, cawsom sicrwydd bod cleifion yn dod i'r clinig heb bartneriaid ar hyn o bryd er mwyn lleihau nifer y bobl yn y clinig ac atal croes-heintio feirws COVID-19.

Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol sicrwydd i AGIC fod posteri sy'n rhoi canllawiau i gleifion am gadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo yn cael eu harddangos o gwmpas y clinig gyda'r nod o ddarparu addysg a gwybodaeth.

Cawsom dystiolaeth dyddiedig 12 Tachwedd 2020 a oedd yn nodi bod y clinig yn gweithredu adnodd archwilio rheoli heintiau sy'n galluogi archwiliad amgylcheddol cynhwysfawr o'r safle. Roedd canlyniad yr archwiliad penodol hwn yn gadarnhaol gyda thystiolaeth o adolygiad gan reolwyr yn nodi nifer bach o fân welliannau yn unig.

Cawsom fanylion adnoddau asesiadau risg y clinig ac asesiadau risg diweddar a gwblhawyd mewn ymateb i bandemig COVID-19. Roedd yr asesiadau risg yn nodi adolygiad o nifer o risgiau a mesur lliniaru wedi'i ddogfennu yn erbyn pob risg. Roedd yr asesiadau risg yn nodi bod nifer y cleifion sy'n dod i driniaethau wedi cael ei addasu i leihau nifer y bobl yn y clinig, gyda'r nod o leihau unrhyw achos o drosglwyddo'r feirws. Yn unol â hyn, roedd isafswm lefelau staffio diogel wedi cael ei gyflwyno. Roedd asesiad risg hefyd wedi cael ei gwblhau i liniaru yn erbyn prinder cyfarpar diogelu personol. Roedd canllawiau clir wedi'u cofnodi ar y ffordd

[1] Gweithdrefn ffrwythloni in vitro i gasglu wyau a sberm
[2] Prawf swab COVID-19 i ganfod haint feirws

roedd y clinig yn cytuno i chwilio am gyfarpar diogelu personol, ei archebu a sicrhau y caiff ei ddosbarthu, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Cawsom gopi o ffurflen gwyno wag i gwsmeriaid a chawsom wybod am y broses a ddilynir ar gyfer gweinyddu, adolygu ac ymdrin â chwynion a phryderon. Yn ogystal, cawsom enghraifft o gŵyn a oedd yn dangos adolygiad gan reolwyr a datrysiad.

Cawsom wybod bod cleifion yn cael eu trin â phreifatrwydd ac urddas, a gofynnir am gydsyniad cyn pob triniaeth a gweithdrefn. Cynigir hebryngwr a chaiff drysau eu cau yn ystod ymgyngoriadau a sganiau uwchsain. Mae llenni preifatrwydd a larymau cleifion wedi eu gosod o amgylch gwelyau archwilio a rhoddir dalen papur i orchuddio rhannau preifat o'r corff yn ystod sganiau uwchsain. Ni chaniateir i unrhyw staff na sylwedyddion ddod i mewn heb ganiatâd gan y claf yn ystod theatr nac unrhyw weithdrefn fewnwthiol arall.

Cawsom wybod bod gan y clinig gyfleusterau teledu cylch cyfyng (CCTV) ar waith at ddibenion diogelwch. Mae'r rhain wedi'u gosod o amgylch yr adeilad ac yn y lobi ac maent yn gweithredu 24 awr y dydd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom ganfyddiadau arolwg cleifion o wasanaethau cwnsela ffrwythlondeb dyddiedig 23 Tachwedd 2020. Gofynnwyd i 95 o gleifion gyfrannu at yr arolwg hwn a chafwyd 19 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nododd AGIC fod ymatebion a oedd yn mynegi anfodlonrwydd ar rai agweddau o'r gwasanaeth cwnsela. Ni chymerwyd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r pryderon ar wahân i archwiliad arall a drefnwyd ar gyfer mis Ionawr 2021. Mae AGIC yn argymell y dylid cymryd camau i adolygu canfyddiadau'r arolwg a dogfennu'r camau a gymerir i fynd i'r afael â phryderon a godir gan gleifion.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisïau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom dystiolaeth bod y clinig yn cwblhau archwiliadau hylendid dwylo wythnosol. Roedd archwiliad a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi dangos bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion hylendid dwylo a golchi dwylo bob amser. Cawsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod y clinig yn dangos posteri o amgylch y clinig i addysgu staff a chleifion am hylendid dwylo.

Cawsom wybod bod hylif diheintio dwylo gwrthfacterol ag alcohol ar gael ym mhob rhan o'r clinig a bod cyfleusterau'r clinig yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Yn ogystal, caiff ardaloedd

clinigol a labordai eu glanhau'n drylwyr yn fisol.

Cawsom gopi o'r cyflwyniad PowerPoint Atal a Rheoli Heintiau a COVID-19 a luniwyd gan y Nyrs Arwain ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. Cyflwynwyd hyn i staff ar ôl i'r clinig ailagor ym mis Mai 2020 a'r nod oedd rhoi trosolwg cynhwysfawr o feirws COVID-19 a'i effaith ar y clinig a darpariaeth triniaeth ffrwythlondeb.

Gwnaethom nodi bod codau ymddygiad COVID-19 i staff a chleifion yn darparu canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, hylendid dwylo, amgylchedd glân, cyfarpar diogelu personol a nodi a datgelu symptomau feirysol, sydd i gyd â'r nod o reoli a lleihau'r risg o heintio a throsglwyddo.

Cawsom wybod bod staff yn cael brechiadau COVID-19 ar adeg y gwiriad ansawdd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth o bolisi Glanhau a Dihalogi a oedd yn rhoi canllawiau i staff ar gyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau glanhau a diheintio. Roedd y polisi wedi cael ei roi ar waith ym mis Mehefin 2017 ac roedd yn nodi y dylid ei adolygu ym mis Mehefin 2019. Mae AGIC yn argymell y dylai rheolwyr y clinig adolygu'r polisi hwn a'i ddiweddaru heb oedi i sicrhau ei fod yn adlewyrchu polisi cyfredol ac unrhyw newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig.

Nododd adolygiad o'r polisïau atal heintiau, COVID-19 a llesiant fod London Women's Clinic yn cyfeirio at ofynion Public Health England (PHE). O ystyried bod darparwr y gwasanaeth yn gweithredu clinigau yng Nghaerdydd ac Abertawe, mae'n hanfodol bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu gofynion Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom adroddiad cynhwysfawr yr unigolyn cyfrifol dyddiedig mis Chwefror 2021 a baratowyd yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 28. Yn ogystal, cawsom fynegai yn nodi'r holl bolisïau, gweithdrefnau a gweithdrefnau gweithredu safonol dyddiedig 2 Chwefror 2021.

Cawsom wybod bod London Women's Clinic wedi sefydlu Pwyllgor Gweithredu'r Coronafeirws gyda phortffolio cyfrifoldeb ac adrodd yn cael ei neilltuo i aelodau'r pwyllgor. Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd yn wythnosol. Caiff gwybodaeth a drafodir yn y cyfarfod ei dosbarthu i arweinwyr clinigol ym mhob canolfan. Cawsom sicrwydd bod aelodau'r pwyllgor yn cysylltu â chydweithwyr yn rheolaidd i rannu arferion gorau.

Cawsom weithdrefn gweithredu safonol cyfredol yn amlinellu'r weithdrefn y mae'r clinig yn ei

dilyn wrth weinyddu a rheoli digwyddiadau niweidiol, achosion o ddiffyg cydymffurfio a gwyro. Cawsom wybod mai dyddiad y digwyddiad diwethaf a gofnodwyd yn y llyfr cofnodi digwyddiadau oedd 27 Awst 2019.

Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol lawlyfr ansawdd manwl inni yn amlinellu systemau'r sefydliad, y cyfleusterau, staffio a chymeradwyaeth ar gyfer clinigau.

Cawsom wybod bod trwyddedau meddyginiaeth priodol ar waith a'u bod yn gyfredol gyda mis Tachwedd 2021 fel dyddiad dod i ben. Cawsom wybod bod gwiriadau'r Swyddfa Gartref wedi cael eu cynnal yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac mae'r clinig yn cydymffurfio â'r meini prawf i storio cyffuriau yn ddiogel.

Cawsom wybod bod y clinig yn darparu ymgyngoriadau rhithwir er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol a lleihau nifer y bobl yn y clinig. Mae timau bach yn cynnwys dau aelod o staff wedi cael eu creu i leihau cyswllt a chadw pellter cymdeithasol rhwng staff a chleifion. Mae cyfleusterau yn y clinig yn galluogi dau glaf i ddod i gael triniaeth ar yr un pryd mewn dwy ystafell ymgynghori wahanol. Cawsom wybod bod rota staff yn cael ei chytuno yn lleol er mwyn sicrhau parhad diogel y gwasanaeth. Cawsom enghraifft o rotâu staff gan glinig Caerdydd a oedd yn cadarnhau'r trefniadau staffio presennol.

Cawsom gopi cyfredol o'r polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant. Cawsom wybod bod llinellau cymorth ac iechyd galwedigaethol ar gael i staff. Cawsom wybod bod y clinig yn gwirio tymheredd staff bob dydd, yn darparu profion gwrthgyrff yn rheolaidd ac yn fwy diweddar, mae staff wedi bod yn cael brechiad COVID-19.

Cawsom gofnod o arfarniadau staff dyddiedig mis Tachwedd 2020. Roedd nifer o arfarniadau wedi darfod. Fodd bynnag, rhoddodd yr unigolyn cyfrifol sicrwydd i AGIC fod apwyntiadau wedi cael eu gwneud gyda staff i unioni hyn.

Cawsom weithdrefn Cwyno gyfredol dyddiedig mis Tachwedd 2020 a oedd yn darparu'r broses ffurfiol ar gyfer gweinyddu cwynion ac apeliadau ar gyfer unrhyw amod cyflogaeth i staff.

Cawsom wybod bod staff yn cynnal gwiriad dyddiol o allanfeydd tân, peryglon baglu, coridorau'r clinig a chyfarpar trydanol. Yn ogystal, caiff larwm tân y clinig ei wirio yn wythnosol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Roedd cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff y clinig yn nodi rhai meysydd i'w gwella. Roedd cofnodion hyfforddiant yn nodi bod cydymffurfiaeth yn llai na 80% ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, codi a chario, ymwybyddiaeth tân ac ansawdd ac amrywiaeth. Yn ogystal, roedd cofnodion hyfforddiant yn nodi nad oedd tri aelod newydd o staff wedi cael hyfforddiant gorfodol. Cawsom wybod bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig, cau'r clinig a ffyrlo staff. Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol wybod inni y bydd yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol erbyn 30/4/21.

Cawsom gopi o'r weithdrefn gweithredu safonol Breintiau Ymarfer ac roedd yn ymddangos ei bod wedi darfod yn sylweddol. Dyddiad y weithdrefn gweithredu safonol oedd 5 Mai 2017 gyda 22 Tachwedd 2017 fel dyddiad adolygu. Gwnaethom roi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol a atgyfeiriodd hyn at Wasanaethau Canolog London Women's Clinic i sefydlu a oedd fersiwn gyfredol ar gael.

Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol nad oes gan London Women's Clinic bolisi uwchgyfeirio staff ac mae hyn wedi cael ei atgyfeirio at y Gwasanaethau Canolog er mwyn cymryd camau angenrheidiol.

# Cynllun gwella

Lleoliad: London Women's Clinic

Gwasanaeth: Clinig Annibynnol

Dyddiad y gweithgarwch: 17 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cawsom ganfyddiadau arolwg cleifion o wasanaethau cwnsela ffrwythlondeb dyddiedig 23 Tachwedd 2020. Gofynnwyd i 95 o gleifion gyfrannu at yr arolwg hwn a chafwyd 19 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nododd AGIC fod ymatebion a oedd yn mynegi anfodlonrwydd ar rai agweddau o'r gwasanaeth cwnsela. Ni chymerwyd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r pryderon ar wahân i | Safon 5 Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth Rheoliad 19 a 28 | Ni chymerwyd unrhyw gamau a threfnwyd archwiliad arall am fod ein cwnselydd rheolaidd yn absennol oherwydd salwch a dychwelodd i'r gwaith ym mis Chwefror 2020. Felly, nid oedd yr archwiliad yn adlewyrchu ei pherfformiad yn llawn. Cafodd cleifion wasanaethau cwnsela gan gwnselydd arall a rhoddwyd adborth o ganfyddiadau'r archwiliad i'r cwnselydd a oedd yn cyflenwi'r absenoldeb oherwydd salwch. | Gweinyddwr y Clinig | 31/05/2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | archwiliad arall a drefnwyd ar gyfer mis Ionawr 2021. Mae AGIC yn argymell y dylid cymryd camau i adolygu canfyddiadau'r arolwg a dogfennu'r camau a gymerir i fynd i'r afael â phryderon a godir gan gleifion. | | Gyda maint sampl bach o 19 o gleifion, bydd un claf anfodlon neu anhapus yn dangos anfodlonrwydd o 5% yn yr archwiliad. Er y gallwn anelu at 100% o gleifion bodlon, nid yw hyn yn nod realistig, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cwnsela.<br><br>Caiff yr archwiliad arall ei gwblhau ar ddiwedd mis Mai 2020. | | |
| 2 | Gwelsom dystiolaeth o bolisi Glanhau a Dihalogi a oedd yn rhoi canllawiau i staff ar gyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau glanhau a diheintio. Roedd y polisi wedi cael ei roi ar waith ym mis Mehefin 2017 ac roedd yn nodi y dylid ei adolygu ym mis Mehefin 2019. Mae AGIC yn argymell y dylai rheolwyr y clinig adolygu'r polisi hwn a'i ddiweddaru heb oedi i sicrhau ei fod yn adlewyrchu polisi cyfredol ac unrhyw newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig. | Safon 1 Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd Rheoliad 9<br><br>Safon 13 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi Rheoliad 9 a 15 | Mae'r Polisi Glanhau a Dihalogi yn cael ei ddiweddaru. | Nyrs Arwain Atal a Rheoli Heintiau | 31/03/2021 |
| 3 | Nododd adolygiad o'r polisïau atal heintiau, COVID-19 a llesiant fod darparwr y gwasanaeth yn cyfeirio at ofynion Public Health England (PHE). O ystyried bod gan ddarparwr y gwasanaeth glinigau yng Nghaerdydd ac Abertawe, | Safon 1 Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd Rheoliad 9<br><br>Safon 13 | Mae hyn wedi'i ddiweddaru | Nyrs Arwain Atal a Rheoli Heintiau | Gweithredwyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | mae'n hanfodol bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu gofynion Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi Rheoliad 9 a 15 | | | |
| 4 | Roedd cofnodion hyfforddiant gorfodol staff yn nodi bod cydymffurfiaeth yn llai na 80% ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, codi a chario, ymwybyddiaeth tân ac ansawdd ac amrywiaeth. Yn ogystal, roedd cofnodion hyfforddiant yn nodi nad oedd tri aelod newydd o staff wedi cael hyfforddiant gorfodol. Mae AGIC yn argymell bod yr holl staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyfredol yn ddi-oed. | Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol Rheoliadau 20 a 21 | Mae hyfforddiant gorfodol yn cael ei drefnu.<br>Dyddiad ar gyfer cwblhau<br>Cynnal Bywyd Brys 08/04/2021<br>Rheoli heintiau 18/03/2021<br>Caiff hyfforddiant gorfodol arall ei gwblhau erbyn 31/05/2021 am ein bod yn cael anhawster cael dyddiadau gan ddarparwyr. | Doctor Hemlata Thackare yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA) unigolyn cyfrifol | 31/05/2021 |
| 5 | Cawsom gopi o'r weithdrefn gweithredu safonol Breintiau Ymarfer ac roedd yn ymddangos ei bod wedi darfod yn sylweddol. Dyddiad y weithdrefn gweithredu safonol oedd 5 Mai 2017 gyda 22 Tachwedd 2017 fel dyddiad adolygu. Mae AGIC yn argymell y dylid adolygu a diweddaru'r ddogfen hon yn briodol. | Safon 1 Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd Rheoliad 9<br><br>Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol Rheoliadau 20 a 21 | Mae'r Weithdrefn Gweithredu Safonol hon yn cael ei hadolygu | Rheolwr Rheoli Ansawdd a Chyfarwyddwr Meddygol JDH | 15/04/2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol nad oes gan London Women's Clinic bolisi uwchgyfeirio staff. Mae AGIC yn argymell y dylid drafftio a chymeradwyo polisi yn ddi-oed. | Safon 1 Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd Rheoliad 19 | Mae Polisi Uwchgyfeirio Staff bellach ar waith | Rheolwr Gweithrediadau | Gweithredwyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Dr Hemlata Thackare

Dyddiad: 11.03.2021